**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**ADRODDIAD I'R PWYLLGOR DEDDFAU**

# Gorchymyn Ardrethi a Phraeseptau (Addasiadau Terfynol) (Diwygio) (Cymru) 2000

## Y Cefndir

Wrth ddarparu ar gyfer dileu'r gyfundrefn ardrethu domestig, cynhwyswyd per yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaethau trosiannol drwy gyfrwng gorchymyn.

Gan hynny, gwnaed darpariaeth yng Ngorchymyn Ardrethu a Phraeseptau (Addasiadau Terfynol) 1991 ar gyfer addasiadau ariannol rhwng cyrff (gan gynnwys eu holynwyr) a oedd, ar ddechrau blwyddyn ariannol 1989-90, yn gyrff praeseptio, a'r awdurdodau ardrethu. Mae'r Memorandwm i'r Pwyllgor Busnes yn esbonio bod yr addasiadau terfynol hyn yn cyfeirio at symiau y cafwyd eu bod i'w hadennill neu i'w had-dalu ar 1 Ebrill 1990 neu ar ôl hynny ac a oedd i'w priodoli i'r ardrethi am gyfnod yn dod i ben cyn y dyddiad hwnnw ac i'r costau gweinyddol perthynol.

Mae'r Memorandwm yn mynd ymlaen i esbonio bod yr unig addasiadau y gellir eu gwneud o hyd yng Nghymru o dan Orchymyn 1991 yn cyfeirio at y siroedd a'r dosbarthau a ddilewyd, gan rannu eu hardaloedd adeg ad-drefnu llywodraeth leol ym 1996. O gofio'r amser sydd wedi mynd heibio, ni chredir y gall y darpariaethau hyn ynghylch addasiadau a geir yng Ngorchymyn 1991 fod yn berthnasol mwyach. Cadarnheir hyn gan y ffaith yr ymgynghorwyd â'r awdurdodau lleol yn Ionawr 1999, heb gael unrhyw ymateb.

Gan hynny, mae'r gorchymyn presennol yn darparu ar gyfer dirwyn y ddarpariaeth drosiannol hon i ben ar 31 Mawrth 2001.

Gwneir hyn drwy newid testun Gorchymyn 1991. Mae'r newidiadau hyn yr un fath yn union â newidiadau sydd wedi'u gwneud ar gyfer Lloegr yn barod (OS 1999/2629).

## Rheol Sefydlog 11.5

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

## Sylwadau Cyffredinol

Byddai'n haws darllen paragraff cyntaf y Nodyn Esboniadol pe bai wedi'i rannu'n ddau baragraff. Hefyd, er mwyn cadw cysondeb o ran strwythur, dylid cael coma ar ôl "honno" fel a ganlyn "…honno, yn awdurdodau…".

Yn erthygl 1(1) mae angen dileu naill ai "which" neu "and".

Yn erthygl 2, eto i gadw cysondeb o ran strwythur, dylid cael coma ar ôl ("Gorchymyn 1991") yn y fersiwn Gymraeg.

Mae'r troednodiadau wedi'i carfannu ar ddiwedd yr offeryn ar hyn o bryd, er mwyn osgoi anawsterau wrth brosesu geiriau. Bydd angen eu dyrannu i'w priod dudalennau yn y copi printiedig.

Efallai y byddai o gymorth pe bai troednodyn (c) yn cyfeirio at y ffaith bod newidiadau sydd yr un fath yn union â'r rhai yn y Gorchymyn presennol eisoes wedi'u gwneud ar gyfer Lloegr gan OS 1999/2629.

**M. GERMAN OBE AM**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

15 fed Chwefror 2000

Cyf: LAD 01-01-069

LC51

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru** **National Assembly for Wales**

**OFFERYNNAU STATUDOL** **STATUTORY INSTRUMENTS**

**2000 Rhif (Cy. )**<0}

## ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Gorchymyn Ardrethi a Phraeseptau (Addasiadau Terfynol) (Diwygio) (Cymru) 2000

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae Gorchymyn Ardrethi a Phraeseptau (Addasiadau Terfynol) 1991 ("Gorchymyn 1991") yn darparu ar gyfer addasiadau ariannol, rhwng cyrff penodol a oedd,

yngln â'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 1989, yn awdurdodau praeseptu (neu eu holynwyr) a'r cyrff a oedd, yngln â'r flwyddyn honno'n awdurdodau ardrethu. Mae'r addasiadau'n ymwneud â symiau sy'n adferadwy, neu a ddilëwyd fel rhai anadferadwy neu a ad-dalwyd, ar 1 Ebrill 1990 neu wedi hynny, a briodolir i ardrethi am gyfnod sy'n dod i ben cyn y dyddiad hwnnw, ac i gostau gweinyddol cysylltiedig.

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n gymwys i Gymru'n unig, yn diwygio'r diffiniad o "relevant year" yn erthygl 2 o Orchymyn 1991 fel na fydd yr addasiadau'n gymwys ar ôl y flwyddyn ariannol 1999/2000 (erthygl 2).

Mae'r Gorchymyn hefyd yn diwygio erthygl 3 o Orchymyn 1991 fel bod rhaid gwneud hysbysiad o gyfrif a wnaed yn unol â'r erthygl honno ar 31 Mawrth 2001 neu cyn hynny (erthygl 3).

**2000 No. (W. )**

## RATING AND VALUATION, WALES

## The Rates and Precepts (Final Adjustments) (Amendment) (Wales) Order 2000

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

The Rates and Precepts (Final Adjustments) Order 1991 ("the 1991 Order") provides for financial adjustments, as between certain bodies which, in respect of the financial year beginning on 1st April 1989, were precepting authorities (or their successors) and the bodies which, in respect of that year, were rating authorities. The adjustments relate to amounts found to be recoverable, or written off as irrecoverable or refunded, on or after 1st April 1990, which are attributable to rates for a period ending before that date, and to associated administrative expenses.

This Order, which applies only to Wales, amends the definition of "relevant year" in article 2 of the 1991 Order so that the adjustments cease to apply after the financial year 1999/2000 (article 2).

The Order also amends article 3 of the 1991 Order so that notification of a calculation made in accordance with that article must be on or before 31st March 2001 (article 3).

**OFFERYNNAU STATUDOL**

**2000 Rhif (Cy. )**

**ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU**

**Gorchymyn Ardrethi a Phraeseptau (Addasiadau Terfynol) (Diwygio) (Cymru) 2000**

Wedi'i wneud Chwefror 2000

Yn dod i rym 31 Mawrth 2000

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 147 (1) a (2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 [(a)] , ac a freiniwyd ynddo bellach i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru: [(b)]*

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.-**(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ardrethi a Phraeseptau (Addasiadau Terfynol) (Diwygio) (Cymru) 2000 a daw i rym ar 31 Mawrth 2000

2. Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru'n unig.

**STATUTORY INSTRUMENTS**

**2000 No. (W. )**

**RATING AND VALUATION, WALES**

**The Rates and Precepts (Final Adjustments) (Amendment) (Wales) Order 2000**

Made February 2000

Coming into force 31 March 2000

*The National Assembly for Wales makes the following Order in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by section 147 (1) and (2) of the Local Government Finance Act 1988[(a)] which are now vested in it so far as exercisable in Wales[(b)]:*

**Citation, commencement and application**

**1.-**(1) This Order, which may be cited as the Rates and Precepts (Final Adjustments) (Amendment) (Wales) Order 2000 and shall come into force on 31 March 2000.

2. This Order applies only to Wales.

## Blwyddyn berthnasol

12. **2.** Yn erthygl 2 o Orchymyn Ardrethi a Phraeseptau (Addasiadau Terfynol) 1991 ("Gorchymyn 1991")[c] yn y diffiniad o "relevant year", ar ôl "subsequent financial year" ychwaneger "until, and including, the financial year beginning in 1999".

## Addasiadau ardrethu hwyr

12. Ym mharagraff (2) o erthygl 3 o Orchymyn 1991, ar ôl "as mentioned in paragraph (1)," ychwaneger "and on or before 31st March 2001."

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998[ch]

2000

Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

*(a)* 1988 p.41.

## Relevant year

**2.** In article 2 of the Rates and Precepts (Final Adjustments) Order 1991 ("the 1991 Order")[c], in the definition of "relevant year", after "subsequent financial year" there is added "until, and including, the financial year beginning in 1999".

## Late rating adjustments

**3.** In paragraph (2) of article 3 of the 1991 Order, after "as mentioned in paragraph (1)," there is added "and on or before 31st March 2001,".

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998[d]

2000

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1988 c.41.

*(b)* Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddol Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

*(c)* O.S 1991/185.

*(ch)* 1998 p.38.

(b) See the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) S.I. 1991/185.

(d) 1998 c.38.